***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 925

## Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu ) (Cymru) 2011

## RHAN 1

Rhagarweiniad

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu ) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

**Cymhwyso**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy, y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (**1**).

**Dehongli**

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Awdurdod Trwyddedu" ("*the Licensing Authority*") yw Gweinidogion Cymru, yn gweithredu yn eu swyddogaeth fel yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

mae "dogfen" ("*document*") yn cynnwys map, ffotograff neu adroddiad;

mae i "dyddiad dechrau" ("*start date*") yr ystyr a roddir gan reoliad 8(3);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;

ystyr "hysbysiad apêl dilys" ("*valid notice of appeal*") yw hysbysiad apêl—

(a) sy'n cydymffurfio â rheoliad 7(1);

(b) a anfonwyd ynghyd â'r dogfennau sy'n ofynnol gan reoliad 7(2); ac

(c) a gafwyd gan Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser perthnasol;

ystyr "y person penodedig" ("*the appointed person*") yw'r person a benodir o dan reoliad 5(1);

ystyr "terfynau amser perthnasol" ("*relevant time limits*") yw—

(a) y terfynau amser a bennir yn y Rheoliadau hyn neu mewn unrhyw gyfarwyddyd a roddir neu ofyniad a wneir gan y person penodedig yn rhinwedd y Rheoliadau hyn;

(**1**) Yn rhinwedd adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy yng Nghymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o'r Ddeddf honno. Gweler adran 322(1) am ddiffiniad o'r rhanbarth hwnnw.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(b) ond mae is-baragraff (a) yn ddarostyngedig i reoliad 25(1).

ystyr "trwydded forol" ("*marine licence*") yw trwydded a roddir o dan Ran 4 o'r Ddeddf